CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL
Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Ebost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Medi 25 2018 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday September 25 2018 at 7pm.

Presennol/*Present:* Gordon Warren (Cadeirydd/Chair), Gareth Winston Roberts OBE, Gina Jones, Gerry Belanger, Myrddin Owens, Meg Roberts, Kevin Ellis, Tony Fitzmaurice, Cyng/Cllr Aled Jones.

Yn bresennol/*In attendance*: Carli Evans-Thau (Clerc/*Clerk)* Hywel Hughes (Cyfieithu/*Translation), Aelod o'r cyhoedd / Member of the community.*

Ymddiheuriadau/*Apologies*: John Byast, Richard Jones, Mike Roberts, Julie Ann Hughes, Liz Wood, Carys Cranston.

1 Croeso/*Welcome*
Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gordon Warren ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by Gordon Warren and all present were welcomed.

2 Datgan Diddordeb/*Declaration of Interest*
Neb/*None*

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/*Minutes of the last meeting*
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir. Cynnig Myrddin Owens, eilio Meg Roberts.
The minutes were confirmed a true record. Proposed Myrddin Owens seconded Meg Roberts.

4 Materion yn codi/*Matters Arising*

4.1 Maes Llwyn
Nid oes diweddariad ynglyn a prydles ar gyfer y maes chwarae newydd. Mae Richard Jones wedi bod mewn cyswllt a'r swyddogion perthnasol. Nid oedd Aled Jones wedi bod ynghlwm a'r trafodaethau. Nododd Gareth Roberts ei siom nad oedd y mater wedi ei gloi erbyn hyn – cytuno byddai'r clerc yn ysgrifennu i ddatgan siom yr aelodau am yr oedi.

There is no update regarding the lease for the new play area. Richard Jones has been in contact with the relevant officers. Aled Jones has not been involved with any discussions. Gareth Roberts noted his disappointment that the matter had not been closed – agreed to write to note the members' disappointment for the delay.

4.2 Arwyddion Stryd Bethesda Signs
Gofynnodd Meg Roberts am ddiweddariad pam nad oedd yr arwyddion wedi eu gosod. Aled Jones i wneud ymholiadau.

Meg Roberts asked for an update as to why the signs had not been erected. Aled Jones to make enquiries.

4.3 Garej Glanrhos
Nododd Aled Jones bod gwybodaeth ynglyn a pherchnogaeth wedi ei basio ymlaen i'r clerc – mae'r safle yn eiddo i Catalytic Knowhow.

Aled Jones noted that information regarding ownership had been forwarded the clerk – the site is owned by Catalytic Knowhow.

4.4 Dylan Williams, Datblygu Economaidd/Economic Development

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi bod mewn cysylltiad a Dylan Williams ai fod wedi cytuno mewn egwyddor mynychu cyfarfod mis Hydref.

The clerk confirmed that she had contacted Dylan Williams and that he had agreed in principle to attend the October meeting.

5 Pwyllgorau Allannol / *External Meetings*

Age Well – nododd Meg Roberts ei siom wrth ddarllen yr adroddiad a ddosbarthwyd wedi'r cyfarfod diwethaf nad oedd aelodau'r Cyngor oedd yn cyfarfod blynyddol Age Well wedi rhannu gwybodaeth pan fu cwestiynnau yn cael eu gofyn gan aelodau yn y Siambr. Nodwyd bod Richard Jones wedi ei benodi yn gadeirydd y cyfarfod. Cytuno bod angen trafodaeth gyda ymddiriedolwyr y Neuadd yn ogystal ag ymddiroedolwyr Age Well er mwyn dysgu am y sefyllfa a ceisio dod i ddealltwriaeth

Cafwyd grynodeb gan Gareth Roberts o'r hyn a drafodwyd yng nghyfarfodydd diweddaraf Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon ac fe ddosbarthwyd adroddiad oedd wedi ei baratoi Roger Dobson wedi'r cyfarfodydd. Nodwyd bod y Bartneriaeth yn parhau o bwyso ar welliannau i'r A5025 Amlwch – Cemaes, datblygu safle Rhosgoch, diogelu lonydd gwledig ('rat runs') a phryderon am oriau gwaith. Roedd trafodaethau hefyd ynglyn a'r gytundeb 106 ar gyfer clirio a pharatoi'r safle a'r ffaith nad oedd llawer o fudd uniongyrchol i'r cymunedau hynnu fydd yn cael eu heffeithio fwyaf ond yn hytrach bod arian yn gadael yr ardal. Deallwyd nad oedd y gytundeb wedi ei arwyddo hyd yma.

Nodwyd siom nad oedd Horizon yn ymateb i gwestiynnau a phryderon yr ardal, a bod yn debyg bod asiantaethau a chyrff eraill megis yr heddlu yn dal i ddisgwyl am wybodaeth hefyd. Os na chawn y gwybodaeth, ni allwn ei herio, ac mae hyn yn codi pryder i'r bartneriaeth gan fod y broses gynllunio ag amserlen cyfyng. Nodwyd bod y Bartneriaeth yn anfon llythyr at yr arolygaeth yn datgan eu siom a'u pryder am y sefyllfa ac roedd yr aelodau yn gefnogol o hynnu.

Dosbarthwyd adroddiad gan Gordon Warren yn amlinellu'r cyfarfodydd yr oedd wedi ei fynychu ers y cyfarfod Cyngor diwethaf. Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned 13/9/2018; Siapio Cymunedau 12/9/2018.

Age Well – Meg Roberts noted her concern in reading the report distributed following the last meeting that the Council members present at the Age Well AGM had not shared information when questions were asked by members in the Chamber. It was noted that Richard Jones had been appointed chair of the meeting. Agreed that a meeting was required with the trustees of the Hall as well as the trustees of Age Well to gain a better understanding of situation.

Gareth Roberts gave a summary of the discussion at the last North Anglesey Councils Partnership meetings and copies of a report prepared by Roger Dobson were distributed. It was noted that the Partnership continue to fight for improvements for the A5025 Amlwch – Cemaes, development of the Rhosgoch site, safeguard rural roads (rat runs) and concerns regarding hours of work. There were also discussions regarding the 106 agreement for the site preparation and clearance and the fact that there would be no significant benefit to those communities most affected, in contrary money would be leaving the area. it was understood that the agreement was yet to be signed.

Disappointment was noted that Horizon were not responding to the area's questions and concerns, and that other organisations such as North Wales Police were also waiting on information. If the information is not forthcoming, we are unable to challenge it and this is of great concern to the Partnership as the planning process is set to a tight schedule. It was noted that the Partnership were writing to the inspectorate noting their disappointment and concern regarding the situation and members were happy to support this action.

Gordon Warren distributed a short report outlining the meetings he had attended since the last Council meeting. Town and Community Councils Forum 13/9/2018; Place Shaping 12/9/2018

6 **Adroddiad y Pwyllgor Cyllid / *Finance Committee Report***

Cafwyd grynodeb o'r cyfarfod gan Myrddin Owens. Fe adewodd y clerc, aelod o'r cyhoedd a Cyng Aled Jones yr ystafell tra bod yr aelodau yn cael diweddariad am y gwyn i'r ombwdsmon ynglyn ag aelod.

Nodwyd bod cais am gefnogaeth wedi ei dderbyn gan Ymddiriedolaeth Treftadaeth Diwydiannol Amlwch tuag at y gost o ailwynebu'r maes parcio ar Fynydd Parys. Cytuno byddai'r Cyngor yn cyfrannu £1000 tuag at y prosiect.

Cafwyd wybod bod y pwyllgor wedi gosod y cytundeb i drin a thrwsio'r waliau mewnol a bod disgwyl mwy o brisiau a gwybodaeth pellach am agweddau eraill o'r gwaith.

Myrddin Owens gave a summary of the meeting. The clerk, member of the public and Cllr Aled Jones left the meeting room whilst members were given an update regarding the complaint to the ombudsman regarding a councillor.

It was noted that the Amlwch Industrial Heritage Trust had requested financial support towards the cost of resurfacing the car park on Parys Mountain. Agreed that the Council contribute £1000 towards the project.

It was noted that the committee had agreed on a contract to repair the internal walls and that further quotes are anticipated before further aspects of the work was to be awarded.

7 **Adroddiad Parciau a Mannau Agored/*Parks and Open Spaces Report***

Cafwyd ddiweddariad gan Gordon Warren yn absenoldeb Mike Roberts. Cadarnhawyd bod y Pwyllgor wedi bod yn gweithio ar y cais loteri ac yn fodlon i'w gyflwyno erbyn hyn. Roedd y Cyngor Llawn yn gefnogol i'w gyflwyno a diolchwyd i'r pwyllgor am eu gwaith.

Gordon Warren gave an update in the absence of Mike Roberts. It was confirmed that the Committee had worked on the lottery application and was happy for it to be submitted. The full Council was happy for it to be presented and thanked the Committee for their efforts.

8 **Wylfa Newydd**

Nodwyd bod materion Wylfa Newydd wedi eu trafod eisioes.
It was noted that Wylfa Newydd matters had already been discussed.

9 **Canolfan Hamdden/*Leisure Centre***

Nid oes gwybodaeth pellach i'w gyflwyno. Cytuno byddai cyflwyno cais rhyddid gwybodaeth i CSYM am gostau refeniw, cynnal y ganolfan, incwm, a defnydd y ganolfan dros y flwyddyn ddiwethaf. Cydnabwyd bod y Cyngor Tref a'r gymuned wedi brwydro i ddiogelu'r ganolfan yn y gorffennol. Nodwyd siom bod Horizon yn bwriadu adeiladu adnoddau yn y campws ar y safle ac wedi eu dymchwel yn hytrach na buddsoddi yn yr adnoddau sydd eisioes yn bodoli yn y gymuned megis y ganolfan hamdden.

Trafodwyd pryder yr aelodau am ddyfodol y ganolfan yn Amlwch yn sgil croesawu Gemau'r Ynysoedd i Fon yn 2025. Cytuno bod y Cyngor yn gefnogol i'r gemau ond nid ar gost colli cyfleusterau yn Amlwch. Nodwyd siom bod canolfannau Llangefni a Chaergybi yn cael adnoddau newydd ond nad oedd son am fuddsoddiad yn Amlwch.

Roedd pryder yn parhau bod cymaint o ddefnydd o gampfeydd yr ysgol. Os oedd y ganolfan hamdden mor ddrud i'r logi, sut mae Age Well yn gallu symud yno gan ddefnyddio arbed arian fel rheswm? Cytuno bod angen gwneud ymholiadau pellach a chymryd camau i ddiogelu'r cyfleusterau a'u datblygu ble'n posib.

There is no further information to present. Agreed that a Freedom of Information request be submitted to IACC for revenue costs, running costs, income and use of the centre over the last year. It was acknowledged that the Town Council and the community had fought to safeguard the centre in the past. Disappointment was noted that Horizon were intending to build facilities in the on-site campus and then take them down rather than investing in the facilities already available in the community such as the leisure centre.

Members concerns regarding the future of the centre in light of welcoming the Island Games to Anglesey in 2025 were discussed. Agreed that the Council were supportive of the games but not at the cost of losing facilities in Amlwch. Disappointment was noted that Llangefni and Holyhead leisure centres are having new facilities but there is no talk of investment for Amlwch.

There was continued concern that there was so much use of the school gymnasiums. If the leisure centre is so expensive to hire, how can Age Well afford to move there using cost cutting as a reason. Agreed that further information is required and steps taken to safeguard the facility and to develop provision where possible

10 Age Well

Nodwyd bod y mater wedi ei drafod eisioes a bydd cyfarfod gyda ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa ac ymddiriedolwyr Age Well i'w drefnu cyn gynted a phosib.

Noted that the matter had already been discussed and that a meeting with the Memorial Hall trustees and Age Well trustees be arranged as soon as possible.

11 Siapio Cymunedau / *Place Shaping*

Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi anfon gwybodaeth drwy ebost i'r holl aelodau cyn y cyfarfod. Nododd y Cadeirydd bod angen blaenioraethu tri mater i symud ymlaen. Mae cyfarfod nesaf y cynllun i'w gynnal yng Nghanolfan Treftadaeth Cemaes am 6.30 o'r gloch nos Fercher Hydref 24.

Pwysleisiodd Aled Jones bod yr ymgynghoariad wedi cynnwys ardal Twrcelyn yn ei gyfanrwydd, a'i fod yn gyfle i gydweithio fel ardal ehangach. Diolchodd Gareth Roberts am y gwaith ond nodwyd siom yn y nifer o ymatebion a gafwyd. Fe ofynnodd beth oedd pwrpas yr arolwg – i adnabod prosiectau bychain byr dymor ynteu datblygu cynlluniau mwy a denu buddsoddiad i'r ardal dros gyfnod ehangach.

Cytuno bod angen cynllun datblygu deg mlynedd ar gyfer y dalgylch. Byddai datblygu safle Rhosgoch er engrhaifft yn creu nifer o swyddi lleol dros gyfnod hir ac yn gyfle i ddenu a chadw pobl ifanc yn ein cymunedau. Mae cefnogaeth i ddatblygiad Wylfa Newydd ond ddim ar unrhyw gost. Bydd nifer o broblemau lleol yn sgil y datblygiad ac mae angen y weledigaeth i ddatblygu a chynnig cyfleon er budd y gymuned leol.

The clerk confirmed that information had been sent via email to all members prior to the meeting. The Chair noted that three issues were to be prioritised to be actioned. The next meeting for the programme is to be held at Cemaes Heritage Centre at 6.30pm Wednesday 24th October.

Aled Jones emphasised that the consultation included the Twrcelyn area in its entirety, and that this was an opportunity to work together as a wider area. Gareth Roberts thanked those involved for the work but noted his disappointment in the number of responses received. He asked what the purpose of the survey was – to identify small short term projects or to develop bigger programmes and draw investment to the area over a longer time frame.

Agreed that a ten year development plan is required for the area. The development of the Rhosgoch site for example would create a number of local employment opportunities over a long timeframe and would be an opportunity to attract and retain young people within our communities. There is support for the Wylfa Newydd project but not at any cost. There will be a number of localised issues and problems as a result of the development and the vision to identify and develop opportunities for the benefit of the local community.

12 Gohebiaeth / *Correspondence*

12.1 Cynllunio/*Planning*

Nodwyd penderfyniadau cynllunio CSYM fel a ganlyn –
IACC planning decisions were noted as follows –

- Tyn Giat, Madyn Rd, Amlwch – *Gwrthod / Refused*

12.2 Gwahardiadau Priffyrdd/*Highway Prohibitions*

Cadarnhad o newidiadau ledled y dref.
Confirmation of changes throughout the town.

12.3 Grid Cenedlaethol/*National Grid*

Daw cylchlythyr diweddaraf y corff yn cadarnhau eu bod wedi cyflwyno eu cais DCO i'r arolygaeth gynllunio. Fe ofynnwyd a oedd pwrpas gwneud unrhyw sylwadau o gwbwl gan nad oedd y cwmni wedi gwrando na chydnabod barn y cymunedau hyd yma ac am fwrw ymlaen gyda pheilonnau ar draws yr ynys.

The organisation's latest newsletter confirming that they have submitted their DCO application to the planning inspectorate. It was asked whether there was any merit in commenting as the company had not listened or acknowledged the views of the communities as yet and were intending to plough ahead with erecting pylons across the island.

13 Unrhyw Fater Arall/*Any Other Business*

13.1 Bysiau/ Busses

Fe ofynnodd Gareth Roberts os oedd unrhyw wiredd yn y si bod CSYM yn bwriadu symud y safle bws yn barhaol o Lon Goch at Garej Central. Byddai hyn yn achosi trafferthion i bobl gario eu nwyddau o'r dref, mae'n bell o gyfleusterau ac nid oes lloches i'r rheini sydd yn disgwyl bws. Cytuno cysylltu a CSYM i gadarnhau'r sefyllfa.

Gareth Roberts asked if there was any truth in the rumour that IACC were intending to move the bus stop permanently from Lon Goch to Central Garage. This would cause issues for people carrying their shopping from the town, it is far from facilities and there is no shelter for those waiting for a bus. Agreed to contact IACC for confirmation.

13.2 Dathlu'r Nadolig/*Christmas Celebration*

Nododd Gordon Warren ei fwriad o gynnal noson i ddathlu'r Nadolig yn y Neuadd Goffa. Byddai'r digwyddiad yn llai ffurfiol na'r gwasanaethau carolau a fu yn y gorffennol. Y dyddiad i'w gadarnhau.

Gordon Warren noted his intention to arrange an evening to celebrate Christmas at the Memorial Hall. The event would be less formal that the carol service held in the past. Date to be confirmed.

13.3 Arwyddion Mynydd Parys *Signage*

Nodwyd bod diffyg arwyddion o Borth Amlwch at y Mynydd ac nad oedd ymwelwyr yn siwr sut i gael o un i'r llall. Mae'r Deyrnas Gopr wedi bod yn cwyno ers peth amser. Cytuno ysgrifennu at CSYM i ofyn am arwyddion ychwanegol a gofyn i'r Cynghorwyr Sirol hefyd wneud ymholiadau.

It was noted that there was a lack of signage from Amlwch Port to the Mountain and that visitors to the area were unsure how to get from one to the other. The Copper Kingdom has been complaining for some time. Agreed to write to IACC to ask for additional signs and ask the County Councillors to also make enquiries.

13.4 A5025 Grogan – Cerrig Man

Fe ofynnodd Aled Jones am gefnogaeth y Cyngor yn ei ymgyrch i leihau'r cyfyngiad cyflymder ar hyd y ffordd o 60mya i 40mya yn dilyn damwain arall yn ddiweddar ar yr un rhan o'r lon. Cytuno cefnogi'r ymgyrch.

Aled Jones asked for the Council's support in his campaign to reduce the speed limit from 60mph to 40mph along this stretch of road following another recent collision. Agreed to support the campaign.

13.5 Panel Cydnabyddiaeth Ariannol/*Remuneration Panel*

Cafwyd grynodeb gan Myrddin Owens o'r canllawiau a'r argymhellion sydd wedi'i cyflwyno i gynghorau tref a chymuned. Mae gofyn i gyngor o faint y Cyngor Tref gynnig taliad o £150 yr un i aelodau. Mae'r Cyngor fodd bynnag wedi cytuno rhai misoedd yn ol na fyddai yn talu ond fe all aelodau hawlio'r arian os y dymunent wneud hynnu yn unigol. Mae'r pwyllgor cyllid wedi gofyn i'r clerc gysylltu a phob aelod i gadarnhau a fyddent yn hawlio'r arian yn y flwyddyn ariannol yma.

Ni fydd y Cyngor yn talu £500 yr un i hyd at pum aelod am gyfrifoldebau ychwanegol nac ychwaith i'r is-gadeirydd. Mae lwfans o £1500 ar gael i'r Cadeirydd yn barod.

Cytuno bod posib i aelodau sy'n mynychu digwyddiadau a/neu cyfarfodydd ar ran y Cyngor hawlio

costau theithio. Ni fydd y Cyngor yn cynnig tal ar golled cyflog am fynychu'r fath gyfarfodydd/digwyddiadau. Bydd posib i aelodau hawlio costau gofalwyr wrth gyflwyno tystiolaeth o wariant perthnasol. Cynnig Myrddin Owens, eilio Gareth Roberts, pawb yn cytuno.

Myrddin Owens gave a summary of the guidance recommendations presented to town and community councils. It is a requirement for a council the size of Amlwch Town Council to offer a payment of £150 each to members. The Council has however agreed some months ago that payment would not be made unless members wished to claim the money independently. The finance committee has asked the clerk to contact each member to confirm whether they will be claiming the money this financial year.

The Council will not be paying £500 for up to five members in relation to additional responsibilities, or to the vice chair. An allowance of £1500 is already available for the Chair.

Agreed it would be possible for members attending events and/or meetings on behalf of the Council to claim travelling costs. The Council will not offer payment for loss of earnings to attend such events/meetings. It will be possible for members to claim carer's costs by presenting evidence of relevant expenditure. Proposed Myrddin Owens, seconded Gareth Roberts, all in agreement.

13.6 Gwastraff/*Waste*

Nodwyd bod peth gwastraff wedi ei adael y tu ol i'r biniau ailgylchu yn y maes parcio ger y llyfrgell. CSYM sydd berchen ar y maes parcio. Cytuno ysgrifennu at CSYM a'r aelodau lleol i godi ymwybyddiaeth.

It was noted that some rubbish had been left behind the recycling bins in the library car park. The car park is owned by IACC. Agreed to write to them and local members to raise awareness.

13.7 Digartrefedd/*Homelessness*

Fe gyflwynodd Gareth Roberts sefyllfa oedd wedi dod i'r amlwg iddo yn ddiweddar tra yn sgwrsio a person ifanc ddigartref. Nododd nad oedd unigiolion tebyg yn gallu canfod swydi a gwella eu hunain heb gael cyfeiriad parhaol a chyfrif banc. Nodwyd bod nifer o gyrff cenedlaethol yn gwneud gwaith tebyg ym Mon yn cefnogi pobl digartref ac fe ofynnwyd a fyddai posib sefydlu system ganolig i dderbyn gohebiaeth ar ran unigolion mewn angen fel bod posib iddynt ganfod gwaith a gwella eu hunain. Cefnogwyd y syniad yn frwd gan nodi bod y swyddogion hynnu sydd yn gweithio yn Amlwch yn gwneud gwaith da iawn.

Gareth Roberts presented a situation that had come to his attention of late whilst chatting to a young homeless person. He noted that similar individuals were unable to find employment and better themselves without having a permanent address and a bank account. It was noted that a number of national organisations do similar work on Anglesey supporting homeless people and it was asked whether it would be possible to establish a central system to receive correspondence on behalf of the individuals in need so that they can seek employment and better themselves. The proposal was eagerly supported, noting that the officers working in Amlwch were doing a very good job.

13.8 Clwb Pel Droed Ieuenctid Amlwch *Junior Football Club*

Cafwyd wybod gan Tony Fitzmaurice bod y clwb wedi ei ddynodi y trydydd clwb cymunedol gorau yng Nghymru, yn gyntaf drwy gogledd Cymru. Cytuno ysgrifennu at y clwb i'w llongyfarch. Nododd Tony Fitzmaurice fod gan y clwb nifer o hen grysau pel droed a fyddai ar gael i'w hanfon i Sankwia os fyddai hyn o ddiddordeb.

Tony Fitzmaurice informed the meeting that the club had been voted the third best community club in Wales, the best in North Wales. Agreed to write to the club to congratulate them. Tony Fitzmaurice noted that the club had a number of old football shirts available to be sent to Sankwia if that was of interest.

13.9 Milwyr Amlwch *Soldiers*

Nododd Tony Fitzmaurice bod aelodau o gymuned Amlwch ar hyn o bryd dramor gyda'r fyddin ac fe ofynnodd a fyddai posib anfon nodyn gan y Cyngor i'w cydnabod ac anfon pecyn o nwyddau atynt. Cefnogwyd y syniad gan nodi y byddai angen i'r Cadeirydd dalu unrhyw gost o'r fath o'i

lwfans blynyddol.

Tony Fitzmaurice noted that there were member of the Amlwch Community currently abroad with the armed forces and he asked whether it would be possible to send a note from the Council to acknowledge them and to include a small goods parcel. The idea was supported noting that the Chair would have to pay any associated costs from his annual allowance.

13.10 Diolch/*Thank you*

Fe ofynnodd Meg Roberts a fyddai posib anfon llythyr at Nige Ault a'i dim sydd yn brysur codi arian at nifer o wahanol elusennau ers rhai blynyddoedd bellach. Mae wedi codi rhai miloedd yn ddiweddar tuag elusen afiechyd Alzheimer's.

Meg Roberts asked whether it would be possible to send a letter to Nige Ault and his team for their continued efforts raising money for a number of charities. He has raised thousands of pounds recently for an Alzheimer's charity.

14 Dyddiad y cyfarfod nesaf/*Date of next meeting*

Bydd y cyfarfod nesaf i'w gynnal Nos Fawrth Hydref 23 2018 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor.
The next meeting will take place on Tuesday October 23 2018 at 7pm in the Council Chamber.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.30 / *The meeting closed at 20.30*

Arwyddwyd / Signed:
Gordon Warren, Cadeirydd / Chair